

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynefin Cymru - Tir Comin 2026

## Canllaw sut i lenwi
### Ffurflen Hawlio

# Cyflwyniad

Dim ond cwsmeriaid sy'n perthyn i gymdeithas bori ac a gafodd grant Cynefin Cymru – Tir Comin dilys yn 2025 fydd yn cael cynnig grant Cynefin Cymru – Tir Comin yn 2026. Bydd y ffurflen hawlio ar gael i holl gwsmeriaid Cynefin Cymru – Tir Comin sydd wedi cael cynnig grant yn 2026.

I weld y canllaw i gynllun Cynefin Cymru – Tir Comin, ewch i wefan Llywodraeth Cymru trwy'r ddolen isod:

https://www.llyw.cymru/cynllun-cynefin-cymru-2024-llyfryn-rheolau-html

Rhaid ichi gyflwyno'ch ffurflen hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin 2026 i Lywodraeth Cymru erbyn canol nos, ddydd Gwener, 15 Mai 2026 fan hwyraf. Bydd ffurflen sy'n cyrraedd rhwng 16 Mai 2026 a 9 Mehefin 2026 yn cael cosb ariannol. Bydd ceisiadau a hawliadau sy'n ein cyrraedd ar ôl 9 Mehefin 2026 yn cael eu gwrthod.

Rhaid cyflwyno dyddiaduron stocio i Lywodraeth Cymru erbyn 14 Ionawr 2027. Mae yna gopi o dempledi dyddiaduron stocio ar wefan Llywodraeth Cymru:

Cynllun Cynefin Cymru (Tir Comin): dyddiadur stocio | LLYW.CYMRU

Cynllun Cynefin Cymru (Tir Comin): dyddiadur stocio (opsiwn 2) | LLYW.CYMRU

Bydd taliadau Cynefin Cymru – Tir Comin 2026 yn cael eu gwneud o fis Chwefror 2027.

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn mynd â chi gam wrth gam trwy'r broses o lenwi'ch ffurflen hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Canllaw yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Os hoffech gopi ar-lein o'r canllaw hwn yn yr iaith arall, ewch i: https://www.llyw.cymru/cynllun-cynefin-cymru-tir-comin-2026-defnyddio-rpw-ar-lein-i-lenwi-eich-ffurflen-hawlio
Cliciwch ar Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin 2026 – Canllaw Sut i Lenwi, yna'r botwm dewis iaith er mwyn agor y ddogfen yn yr iaith arall.

Os ydych yn cael trafferthion neu os nad ydych yn gallu defnyddio'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** ........ 2
**Dechrau Arni** ........ 5
**Gweld eich Ffurflen Hawlio** ........ 7
**Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin** ........ 10
**Manylion y Cwsmer – Newid y manylion** ........ 12
**Dewisiadau Ar-lein – Newid manylion** ........ 13
**Nodiadau cyffredinol ar ddefnyddio ffurflen hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin** ........ 14
**Rhestr y Tudalennau a Mynd o Dudalen i Dudalen** ........ 15
**Tudalen y Cyflwyniad** ........ 16
**Hysbysiad Preifatrwydd** ........ 17
**Aelodau'r Gymdeithas Bori** ........ 18
**Hawliadau** ........ 19
**Data Tir** ........ 25
**Ychwanegu Parsel Tir Comin** ........ 26
**Manylion Parseli Tir** ........ 31
**Codau Cnydau a Nodweddion Parhaol Cynllun Cynefin Cymru – Tir Comin** ........ 36
**Datganiad Sicrwydd Atodlen 6: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu** ........ 37
**Adran Gyflwyno** ........ 39
**Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb** ........ 39
**Gwallau a Gwybodaeth** ........ 41
**Crynodeb** ........ 45
**Datganiadau ac Ymrwymiadau** ........ 47
**Cyflwyno** ........ 48
**Cadarnhau bod ffurflen hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin wedi'i chyflwyno** ........ 49
**Hawliad sydd wedi'i Gyflwyno** ........ 51


© Hawlfraint y Goron 2026 WG48541 ISBN: 978-1-80633-934-1

© Hawlfraint y Goron 2026 WG48541 ISBN: 978-1-80633-934-1

# Dechrau Arni


## Tudalen Hafan RPW Ar-lein

Os nad ydych wedi cofrestru eto i fynd i'ch cyfrif ar-lein, defnyddiwch y ddolen Gofrestru isod:

Cofrestru

Os nad ydych eisoes wedi logio i mewn, logiwch i mewn i'ch Cyfrif RPW Ar-lein trwy'r ddolen isod:


Mewngofnodi RPW Ar-lein




Fe welwch y sgrin ganlynol.  Arni, rhaid ichi nodi'ch ID Defnyddiwr a'ch Cyfrinair a chlicio Mewngofnodi.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl logio i mewn, fe welwch dudalen 'Hafan' eich cyfrif RPW Ar-lein.





Bydd eich tudalen Hafan yn newid yn ôl eich manylion chi fel cwsmer ac efallai na fydd union yr un peth â'r uchod.


[Yn ôl i'r Cynnwys]


# Gweld eich Ffurflen Hawlio

I weld Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin 2026, cliciwch ar y ddolen yn y blwch Dechrau Ffurflen a'r  tab Ffurflenni ar waelod y sgrin Hafan.




Gallwch fynd i’r ffurflen hawlio hefyd trwy’r tab Ffurflenni ar dop y dudalen.






Gallwch newid iaith eich cyfrif ar-lein unrhyw bryd trwy ddefnyddio’r botwm newid iaith ar dop y sgrin. Dangosir yr iaith y mae’r canllaw Sut i Lenwi hwn yn ymddangos ynddi ar y botwm newid Iaith.


Os ydych wedi dewis gweld y sgrin RPW Ar-lein Gymraeg, bydd y Canllaw Sut i Lenwi yn ymddangos yn y Gymraeg. Os ydych am weld y sgrin Saesneg, cliciwch ar English.




[Yn ôl i’r Cynnwys]

# Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin

Pan fyddwch yn clicio i ddechrau'ch ffurflen hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin, y dudalen ganlynol welwch chi.


RPW Ar-Lein Online

Charlies & Estate Agent ??*/// - Yn edrych ar CRN: (Newid Cwsmer) English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 2 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach

**Dechrau Cais** dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru - Tir Comin 2026.**

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Gofalwch fod eich **Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru - Tir Comin 2026** a'r dystiolaeth ddogfennol yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 15 Mai 2026 rhag ichi gael eich cosbi am ei gyflwyno'n hwyr.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 9 Mehefin 2026. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau llenwi'r ffurflen cyn 9 Mehefin 2026.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru - Tir Comin 2026** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
**Enw Masnachu**
**Cyfeiriad**
**Côd Post**
**Rhif Ffôn**
**Cyfeiriad e-bost**
**Nifer y Partneriaid**

Dewisiadau Ar-lein
**E-bost neu neges destun (SMS) gan RPW**
**Cyfeiriad e-bost**
**Rhif ffôn symudol**


Dechrau | Canslo

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd

Gofalwch eich bod yn darllen ac yn deall y testun ar y sgrin. Gofalwch hefyd fod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein yn gywir.

Os ydyn nhw, cliciwch Dechrau.

Os nad yw Manylion y Cwsmer neu'r Dewisiadau Ar-lein yn gywir, cliciwch naill ai ar Fanylion y Cwsmer neu'r Dewisiadau Ar-lein i newid y manylion perthnasol.





Bydd y ddolen yn mynd â chi i sgrin Manylion y Cwsmer neu'r Dewisiadau Ar-lein isod. Yno, gallwch newid eich manylion drwy glicio ar y botwm 'Diweddaru'r Gwybodaeth yma'. Ar ôl ichi wneud eich newidiadau, bydd angen ichi ddychwelyd i'r sgrin Dechrau Cais/Parhau â Chais a phwyso ar Dechrau neu Parhau yn ôl y gofyn.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Manylion y Cwsmer – Newid y manylion


Darllenwch y [Cyfarwyddiadau RPW Ar-lein] i weld sut mae newid eich manylion.




[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Dewisiadau Ar-lein – Newid manylion

Darllenwch y Cyfarwyddiadau RPW Ar-lein i weld sut mae newid eich dewisiadau.




Yn ôl i'r Cynnwys

## Nodiadau cyffredinol ar ddefnyddio ffurflen hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin

Ar ôl dechrau'ch ffurflen hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin 2026, darllenwch y nodiadau technegol hyn cyn mynd ymhellach.

- Rydym yn eich cynghori i bwyso 'Safio' ar bob tudalen rydych wedi newid gwybodaeth arni.
- Defnyddiwch y botymau 'Yn ôl' neu 'Nesaf' i fynd o un sgrin i'r llall.
- **Peidiwch** â defnyddio'r saethau yn ôl ac ymlaen ar far y porwr i symud rhwng tudalennau gan y bydd yr hawliad yn debygol o fethu a chau, ac efallai y bydd angen ichi logio yn ôl i mewn i RPW Ar-lein eto.
- Trwy bwyso 'Safio', byddwch yn diweddaru'ch hawliad ac yn safio'r holl newidiadau rydych wedi'u gwneud.  Gallwch glicio 'Safio' unrhyw bryd.
- Wrth bwyso 'Gadael', bydd yr holl newidiadau rydych wedi'u gwneud i'ch hawliad yn cael eu safio cyn ichi adael i sgrin hafan RPW Ar-lein.
- Cliciwch ar y botwm 'Printio' i brintio copi o'ch ffurflen hawlio.  Bydd y fersiwn wedi'i phrintio'n dangos y ffurflen fel ag y mae ar hyn o bryd.
- DRAFFT yn unig yw'r fersiwn wedi'i phrintio ac **ni** fydd Llywodraeth Cymru'n ei derbyn fel hawliad am daliad.
- Bydd y geiriau HEB EI CHYFLWYNO yn ymddangos ar droed y fersiwn ddrafft wedi'i phrintio.
- Ar ôl ei chyflwyno, bydd y geiriau WEDI'I CHYFLWYNO yn ymddangos ar droed y fersiwn wedi'i phrintio.

Yn ôl i'r Cynnwys


# Rhestr y Tudalennau a Mynd o Dudalen i Dudalen

Mae’ch Rhestr Tudalennau (gweler isod) yn rhestru adrannau’ch ffurflen hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin.


Bydd tic gwyrdd yn ymddangos wrth yr adrannau rydych wedi’u llenwi.

Bydd croes goch yn dangos naill ai bod ‘gwall’ yn yr adran neu’ch bod heb fod yn yr adran eto.

Bydd yr adran rydych ynddi ar hyn o bryd yn ymddangos yn las ar eich sgrin. Mae’r sgrinlun isod yn dangos eich bod yn yr adran ‘Hawliadau’ ar hyn o bryd.




Os ydych am fynd i adran arall, cliciwch ar deitl yr adran honno.

E.e. os ydych am fynd yn ôl i adran y Cyflwyniad, cliciwch ar 


ac fe gewch eich cymryd yn syth i adran y Cyflwyniad.

[Yn ôl i’r Cynnwys]

# Tudalen y Cyflwyniad

Mae’r dudalen hon yn rhoi gwybodaeth bwysig ichi am eich hawliad. Gofalwch eich bod yn ei darllen yn ofalus cyn dechrau.





Mae’r botwm ‘Canllaw Helpu’ (mewn amlinell goch uchod) yn ddolen i’r Canllaw Sut i Lenwi Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin hwn ar wefan Llywodraeth Cymru. Trwy glicio ar y ddolen hon, byddwch yn agor tab newydd ar Borwr y Rhyngrwyd.

Ar ôl darllen a deall y Pwyntiau Pwysig, cliciwch ‘Nesaf’ ar gornel dde uchaf neu isaf y sgrin i fynd i’r adran nesaf.

Yn ôl i’r Cynnwys

# Hysbysiad Preifatrwydd

Rhaid ichi ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.



[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Aelodau’r Gymdeithas Bori


Mae’r dudalen hon yn dangos aelodau presennol y Gymdeithas Bori, fel ag y maen nhw yn eich llythyr dyfarnu grant Cynefin Cymru – Tir Comin.




Gofalwch fod y manylion i gyd yn gywir.

**Pwysig:** efallai y bydd angen ichi sgrolio i lawr y sgrin i weld holl aelodau’r Gymdeithas Bori.

**RHAID** ateb ‘Oes’ neu ‘Nac oes’ i’r cwestiwn canlynol ar waelod eich sgrin:




Os mai ‘Oes’ yw’ch ateb, yna rhaid ichi esbonio’r newid.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau trwy RPW Ar-lein.


Os mai ‘Nac oes’ yw’ch ateb, nid oes angen rhagor o wybodaeth arnom. Cliciwch ‘Nesaf’ i barhau â’ch hawliad.

[Yn ôl i’r Cynnwys](#)

# Hawliadau

Mae’r sgrin yn dangos y cynllun(iau) yr ydych yn gymwys i’w hawlio. Caiff pob cwsmer gyfle i hawlio Taliad Rheoli Tir Cynefin Cymru - Tir Comin.

Os ydych yn gwsmer Tir Comin Uwch Cynefin Cymru, cewch hefyd hawlio Taliad Rheoli Ychwanegol Cynefin Cymru - Tir Comin. Os nad ydych yn gwsmer Tir Comin Uwch Cynefin Cymru, ni fydd y blwch hawlio hwn yn ymddangos ar eich hawliad.





Bydd y blychau hawlio hyn wedi’u ticio ar eich rhan.  Os na fyddwch am hawlio taliad y cynllun dan sylw, dilëwch y tic yn y blwch priodol.

Os byddwch yn dileu’r tic ar gyfer hawlio ‘Taliad Rheoli Tir Cynefin Cymru - Tir Comin’, fe welwch y blwch isod:



Bydd y blwch yn dweud wrthych eich bod wedi dewis peidio â hawlio Taliad Rheoli Tir Cynefin Cymru - Tir Comin.

Cliciwch Iawn a bydd y blwch sylwadau’n ymddangos.





Rhaid ichi lenwi’r blwch sylwadau i esbonio pam nad ydych yn hawlio’ch taliad blynyddol o dan y cynllun Cynefin Cymru – Tir Comin a/neu gynllun Tir Comin Uwch Cynefin Cymru.

Os byddwch yn gadael y blwch sylwadau’n wag ac yn dewis ‘Nesaf’, cofnodir bod ‘gwall’ wedi’i wneud ar y dudalen hon a bydd croes goch yn aros wrth ‘Hawliadau’ ar y rhestr dudalennau. I ddatrys hyn, rhowch esboniad wrth bob taliad pam nad ydych wedi’i hawlio neu dewiswch hawlio’r taliad rheoli trwy dicio’r blwch.





Os ydych wedi dileu'r tic ym mlwch hawlio naill ai: Taliad Rheoli Tir Cynefin Cymru - Tir Comin neu Taliad Rheoli Ychwanegol Cynefin Cymru - Tir Comin a'ch bod yn penderfynu rhoi tic yn ôl yn y blwch i hawlio'r naill daliad rheoli neu'r llall, fe welwch y blwch canlynol:





Diben y neges wybodaeth hon yw rhoi gwybod ichi bod yr holl barseli tir yn eich hawliad bellach wedi'u marcio fel rhai 'wedi'u hawlio' ac os nad ydych am hawlio taliad ar gyfer unrhyw barsel, rhaid gwneud hynny drwy ddileu'r tic wrth y parseli hynny yn yr Adran Data Tir.

Rhaid i bob cwsmer Tir Comin Uwch Cynefin Cymru ateb y cwestiwn canlynol:

**A ydych wedi cydymffurfio (neu a fyddwch yn cydymffurfio) â'r holl weithgareddau sy'n seiliedig ar gaeau ar gyfer yr opsiynau Taliad Rheoli Ychwanegol o fewn eich Contract Cynefin Cymru - Tir Comin?**




Os nad ydych wedi neu'n gallu cydymffurfio â'r gweithgareddau sydd wedi'u nodi yn eich Llythyr Dyfarnu Grant Tir Comin Uwch Cynefin Cymru, dewiswch 'Nac ydw' ac fe welwch y tabl canlynol:





Rhaid ichi lenwi'r canlynol:


- Rhif y Ddalen (e.e. SS1234)
- Rhif y Cae (e.e. 0056)
- Opsiwn – Dewiswch eich AMP o'r gwymplen (e.e. 411)

- Rhif y Gweithgaredd (e.e. TE001)
- Sylwadau – rhowch y rheswm pam nad ydych yn gallu neu heb gadw at ofynion y Taliad Rheoli Ychwanegol yn unol â'ch Llythyr Dyfarnu Grant Tir Comin Uwch Cynefin Cymru.

Os nad ydych wedi cadw at fwy nag un o'r gweithgareddau, defnyddiwch y botwm 'Ychwanegu Gweithgaredd' i lenwi tabl ychwanegol fel y gwelwch isod:





Isod, fe welwch enghraifft o'r math o wybodaeth sydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru:




Ar ôl rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani, cliciwch ar 'Safio' ac yna 'Nesaf'.

I ddileu tabl sydd wedi'i llenwi'n anghywir, cliciwch ar y botwm 'Dilëwch'.





Os ydych wedi clicio 'Nac ydw' trwy gamgymeriad, yna dewiswch 'Ydw'. Bydd y tabl yn cael ei ddileu ac ni fyddwn yn ystyried yr wybodaeth rydych wedi'i bwydo. Ond cliciwch 'Nac ydw' eto os ydych am safio'r sgrin a chael yr wybodaeth yn ôl. Gofalwch fod yr wybodaeth sydd ar y sgrin yn gywir.

Yna cliciwch 'Nesaf'.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Data Tir

Mae sgrin y Data Tir yn dangos eich holl Dir Comin a'r holl dir sy'n cael ei Gyd-ddefnyddio, yn unol â'ch Llythyr Dyfarnu Grant Cynefin Cymru – Tir Comin.



Edrychwch ar bob parsel ac fe welwch fod Enw'r Sir Gofrestru a Rhif y Comin wedi'u nodi wrtho.  Cofiwch, os ydy'ch contract yn cynnwys tir sy'n cael ei Gyd-ddefnyddio, LUIC fydd wedi'i nodi yn lle Enw'r Sir a Rhif y Comin.

Gofalwch fod Rhif y Ddalen (SN1234) a Rhif y Cae (0012) yn gywir.

- Maint y Cae (ha) yw cyfanswm arwynebedd y cae.  Hynny yw, cyfanswm yr holl godau cnydau a nodweddion parhaol o fewn y parsel.
- Yr Arwynebedd Cymwys Mwyaf (ha) yw cyfanswm yr arwynebedd yn y parsel sy'n gymwys am daliad h.y. cyfanswm arwynebedd yr holl godau cnydau cymwys yn y parsel.
- Mae'r golofn 'Wedi'i hawlio' yn dangos eich bod wedi dewis hawlio taliad ar y parsel hwn.  Pwysig: bydd tic i hawlio taliad yn cael ei roi'n awtomatig wrth bob parsel. Os nad ydych am hawlio taliad ar gyfer y parsel, rhaid 'Agor' y parsel a dileu'r tic hawlio.


Os ydych am dynnu parsel o'ch ffurflen hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin 2026 – defnyddiwch y botwm 'Dileu Cae'.  Os ydych am roi parsel yn ôl, dewiswch y botwm 'Adfer Cae' – ni fydd y botwm hwn i'w weld onibai'ch bod wedi dileu cae.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Ychwanegu Parsel Tir Comin

I ychwanegu parsel nad yw eisoes ar eich rhestr Data Tir, dilynwch y camau canlynol:

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn y Rhestr Data Tir
- Cliciwch ar y botwm glas 'Ychwanegu Cae' (o fewn y llinell goch isod):





- Nodwch Rif y Ddalen (SS12340 a Rhif y Cae (0123) y parseli dan sylw. Gweler isod:





**Pwysig**: Os ydy Rhif y Cae yn dechrau â sero, cofiwch nodi'r pedwar rhif (e.e. 0011).


Ar ôl rhoi Rhif y Ddalen (SS1234) a Rhif y Cae (0011), fe welwch y sgrin a ganlyn:




O dan ‘Enw’r Sir Gofrestru’ a ‘Rhif y Comin’, bydd y system yn galw pob parsel tir yn ‘Dir sy’n cael ei Gyd-ddefnyddio’ (LUIC - *Land Used in Common*). Os nad yw hyn yn gywir, dewiswch enw’r sir o’r gwymplen o dan ‘Enw’r Sir Gofrestru’. Gweler isod:





Ar ôl dewis enw’r sir, nodwch Rif y Comin.





Rhaid ichi nawr ddewis yr holl gnydau a nodweddion parhaol sydd yn y parsel tir.

Dewiswch o'r rhestr ar y gwymplen fel y gwelwch isod a nodwch arwynebedd y cnwd neu'r nodwedd barhaol mewn hectarau, i ddau le degol, yn y Golofn Arwynebedd:





Darllenwch yr adran [Codau Cnydau a Nodweddion Parhaol Cynllun Cynefin Cymru – Tir Comin] i gael disgrifiad llawn o'r codau cnydau a'r codau nodweddion parhaol sydd ar gael ar Diroedd Comin Cynefin Cymru.

Os ydych am ychwanegu rhagor o godau cnydau neu nodweddion parhaol, defnyddiwch y botwm Ychwanegu Cnydau, fel y gwelwch isod:




Os oes angen dileu cnwd, defnyddiwch y botwm coch ‘Dilëwch’, fel y gwelwch uchod.

Fe welwch isod enghraifft o barsel sydd wedi’i ychwanegu at yr hawliad:





Mae’r ffigurau yn y golofn ‘Arwynebedd wedi’i Hawlio’ yn gallu newid, gan ddibynnu ar yr wybodaeth y byddwch wedi’i bwydo i’r system ac ar ba gnydau a/neu nodweddion parhaol sydd wedi’u nodi a’u harwynebedd.

- Maint y Cae Cyfan (ha) = cyfanswm arwynebedd yr holl gnydau a nodweddion parhaol sydd wedi’u nodi ar sgrin.
- Arwynebedd Cymwys (ha) = cyfanswm yr holl gnydau sydd wedi’u nodi ar y sgrin, sy’n gymwys am daliad o dan gynllun Cynefin Cymru – Tir Comin.

Wedi ichi fynd yn ôl i'r Rhestr Data Caeau, fe welwch fod y colofnau Maint y Cae a'r Arwynebedd Cymwys Mwyaf wrth y parsel rydych wedi'i ychwanegu at eich hawliad yn wag. Y rheswm am hynny yw nad yw manylion y parsel tir wedi'i ddilysu eto.

Os ydych am ddileu'r parsel rydych wedi'i ychwanegu at eich hawliad, cliciwch y botwm coch 'Dileu Cae' fel y gwelwch isod:




[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Manylion Parseli Tir

**Rhaid** ichi agor yr holl barseli tir sydd yn eich hawliad.

Trwy ‘Agor’ parsel tir, fe welwch y sgrin ganlynol:




Gofalwch fod manylion yr holl barseli tir yn gywir, gwnewch y cywiriadau angenrheidiol a nodwch p’un a ydych am hawlio taliad ai peidio.

Gallwch ddewis peidio â hawlio trwy ddileu’r tic o dan ‘Hawlio’ wrth rif y cae.


Bydd sgrin Manylion Parseli Tir yn dangos:

- Enw’r Sir Gofrestru neu LUIC (Tir sy’n cael ei gyd-ddefnyddio).
- Rhif y Comin neu LUIC (Tir sy’n cael ei gyd-ddefnyddio).
- Rhif y Ddalen
- Rhif y Cae
- Blwch y tic hawlio. Os oes tic, rydych yn hawlio taliad.
- Opsiwn Dod yn Ôl – ticiwch os ydych am ddod yn ôl i’r dudalen hon rywdro eto. Bydd yn ymddangos yn y Crynodeb fel neges wybodaeth.
- Maint y Cae Cyfan (ha).
- Arwynebedd Cymwys Mwyaf (ha).
- Mae ffigurau’r Arwynebedd wedi’i Hawlio yn seiliedig ar ffigurau’r Cnydau ac Arwynebedd ar ochr dde’r sgrin. Bydd unrhyw newidiadau i’r arwynebedd yn cael eu dangos yn y golofn hon.
- Cnydau (cwymplen) – byddwn wedi llenwi hwn ar eich rhan gyda’r wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru am y parsel tir. Gallwch ei newid gan ddefnyddio’r gwymplen cnydau os ydych chi’n credu bod yr wybodaeth sydd ar y sgrin yn anghywir.
- Arwynebedd – dyma arwynebedd y cnwd. Rhaid ei nodi i ddau le degol (0.00ha).

Mae'r nodweddion parhaol hefyd yn cael eu dangos o dan y golofn cnydau. Dyma'r tir na fyddwch yn gallu cael taliad Cynefin Cymru – Tir Comin arnynt.


Darllenwch yr Adran Codau Cnydau a Nodweddion Parhaol i weld yr holl godau cnydau a nodweddion parhaol sydd ar gael o dan gynllun Cynefin Cymru – Tir Comin.

Os ydych yn dileu cnwd, bydd wedi'i liwio'n llwyd ac yn lle'r botwm 'Dilëwch', fe welwch fotwm 'Adfer', fel yr isod:





Os ydych am roi'r cnwd rydych wedi'i ddileu yn ôl, cliciwch ar y botwm coch 'Adfer'.


Os ydych am ychwanegu cnwd neu nodwedd barhaol at y parsel, cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Cnwd'. Bydd rhes wag yn ymddangos ichi ei llenwi gan ddefnyddio'r gwymplen. Yna bydd angen ichi nodi arwynebedd y cnwd neu'r nodwedd barhaol.





Bydd tic yn cael ei roi'n awtomatig yn y blwch hawlio taliad wrth bob cae ar eich Ffurflen Hawlio Cynllun Cynefin Cymru – Tir Comin 2026.




Os nad ydych am hawlio taliad ar barsel, dilëwch y tic o'r blwch hawlio, fel y gwelwch isod:




Os ydych am ddod yn ôl i weithio ar gae nes ymlaen, ticiwch y blwch ‘Dod yn ôl’ fel y gwelwch isod:



Cliciwch ar y botwm 'Yn ôl i'r Rhestr' i fynd yn ôl i'r Rhestr Data Tir i weld y parseli eraill yn eich hawliad. Gweler isod:

Gallech hefyd ddefnyddio'r botwm 'Nesaf' i fynd i'r parsel nesaf yn eich hawliad.

Bydd y botwm 'Yn ôl' yn mynd a chi i'r parsel blaenorol yn eich hawliad.




[Yn ôl i’r Cynnwys]

# Codau Cnydau a Nodweddion Parhaol Cynllun Cynefin Cymru – Tir Comin

Dyma restr o'r Codau Cnydau a Nodweddion Parhaol y gallwch gael taliad arnyn nhw.  Rhoddir disgrifiad byr ohonyn nhw hefyd:


| Cod Cnwd â Thaliad | Disgrifiad |
|---|---|
| GR2 | Porfa barhaol – dros 5 mlynedd |
| GT1 | Traciau pori |
| HE7 | Gweundir pori |
| RE1 | Cyrs |
| RU1 | Brwyn |
| SM2 | Morfa heli bori |
| TR2 | Coetir conwydd – heb ei bori (gan gynnwys Coed Nadolig) |
| TT99 | Tir nad oes modd ei ddefnyddio – dros dro |
| WS1 | Coetir llydanddail heb ei bori |
| YY14 | Coetir conwydd gwasgarog |
| YY15 | Coetir llydanddail gwasgarog |
| YY16 | Coetir – boncyffion |
| YY21 | Rhedyn gwasgarog |
| YY23 | Prysgwydd / Eithin / Mieri – gwasgarog |
| ZZ10 | Coetir conwydd – grŵp |
| ZZ11 | Coetir llydanddail – grŵp |
| ZZ20 | Rhedyn - grŵp |
| ZZ22 | Prysgwydd / Eithin / Mieri - grŵp |

| Nodweddion Parhaol – **(dim taliad)** | Disgrifiad |
|---|---|
| NO1 | Gweithgareddau anamaethyddol |
| PD1 | Pyllau – cymwys am BPS |
| YY41 | Sgri / Cnycau / Meini / Tywod – gwasgarog |
| ZZ30 | Pyllau – anghymwys |
| ZZ31 | Afonydd a Nentydd |
| ZZ40 | Sgri / Cnycau / Meini / Tywod - grŵp |
| ZZ89 | Adeiladau / buarthau |
| ZZ92 | Arwynebau caled |
| ZZ94 | Ffyrdd |
| ZZ97 | Traciau heb eu pori |

Yn ôl i'r Cynnwys

# Datganiad Sicrwydd Atodlen 6: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu


Mae gofyn ichi lenwi Atodlen 6 – Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu i gadarnhau bod gan y busnesau sy'n cael eu hariannu weithdrefnau llywodraethu ac atal twyll rhesymol a digonol. Rhaid ateb pob eitem sydd â *.




Os oes mwy nag un aelod o staff yn eich sefydliad â chyfrifoldeb penodol am reoli cyllid y dibenion gwarchod tir cynefin neu fwy nag un unigolyn yn gyfrifol am oruchwylio'r aelodau staff a enwir, gallwch ychwanegu unigolion trwy glicio ar y botwm 'Ychwanegu Unigolyn'. Pan fydd y rhes wag wedi'i chreu, gallwch nodi'r unigolyn rydych am ei ychwanegu.


Dim ond os ydych am gael gwared ar y rhes y dylech bwyso'r botwm 'Dileu'r Unigolyn'.

Os mai'ch ateb i'r cwestiwn 'ydych chi'n cael unrhyw gyllid gan unrhyw sefydliad arall i gefnogi'r Dibenion?' yw Ydw, rhaid ichi roi manylion y cyllid rydych chi'n ei gael gan sefydliad arall i gefnogi'r diben o warchod tir cynefin, gan gynnwys faint o gyllid rydych yn ei gael, y swyddi sy'n cael eu cynnal ac o ble mae'r cyllid yn dod, yn y tabl a ddangosir isod. Dylech gynnwys ceisiadau sydd heb eu prosesu eto.




Os ydy'r cyllid arall rydych chi'n ei gael yn dod o fwy nag un sefydliad/ffynhonnell, gallwch ychwanegu rhes newydd trwy glicio ar y botwm '+Ychwanegu cyllid'.  Pan fydd y rhes wag wedi'i chreu, gallwch nodi manylion y cyllid.

Dim ond os ydych am gael gwared ar y rhes y dylech bwyso'r botwm 'Dilewch'.




Pan fyddwch wedi llenwi pob rhan ofynnol, rhaid rhoi tic i gadarnhau'r datganiad.




[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Adran Gyflwyno


Mae’r adran hon yn crynhoi’r manylion rydych wedi’u rhoi wrth hawlio taliadau Cynllun Cynefin Cymru – Tir Comin 2026 ac yn nodi’r gwallau neu’r negeseuon gwybodaeth sydd ar eich cais. Darllenwch yr adran hon i wneud yn siŵr bod y manylion yn gywir.

Mae’r adran Gyflwyno yn cynnwys:


- Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb
- Datganiadau ac Ymrwymiadau
- Cyflwyno.

# Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb


Mae’r dudalen Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb yn nodi’r negeseuon gwybodaeth am wallau ar eich ffurflen hawlio neu wybodaeth sydd angen ei darparu. Gwiriwch yr adran hon am unrhyw wallau neu negeseuon gwybodaeth.




Bydd unrhyw wallau’n ymddangos yn goch:





Bydd unrhyw negeseuon gwybodaeth yn dangos y neges ganlynol:




Os nad oes gwallau na negeseuon gwybodaeth, fe welwch y neges isod:

*Gwallau a Gwybodaeth*

*Nid oes Gwallau na Negeseuon Gwybodaeth.*





## Gwallau a Gwybodaeth

Mae’r canlynol yn rhestru’r adrannau sydd â Gwallau a Negeseuon Gwybodaeth ynddyn nhw.  Rhaid cywiro’r gwallau cyn y cewch gyflwyno’ch cais. O ran y Negeseuon Gwybodaeth, rydym yn eich cynghori i sicrhau bod eich ymateb iddyn nhw’n gywir.

Cliciwch ar Enw’r Adran i weld Gwallau a Negeseuon yr adran honno.

Rhaid ichi ddarllen pob tudalen cyn anfon eich hawliad.

Fe welwch enghraifft o neges gwybodaeth a gwall isod:





Bydd enw’r adran yn las – mae’n ddolen i fynd â chi i’r adran. Mae’n dangos hefyd

bod gwybodaeth neu wall yn yr adran. Cliciwch ar deitl yr adran a bydd yn mynd â chi i'r adran a'r neges gwall neu wybodaeth sy'n ymddangos ar y sgrin.
Mae'r enghraifft uchod yn dangos nad oes gwall yn yr adran Aelodaeth Cymdeithas Bori ond mae Neges Gwybodaeth wrth yr adran.


Hefyd, mae'r enghraifft yn dangos bod Gwall yn yr adran Hawliadau, ond nad oes Neges Gwybodaeth.

Mae'r Neges Gwybodaeth yn yr adran Aelodaeth Cymdeithas Bori yn cael ei dangos isod:





Mae'r neges yn dweud wrthych: gan ichi nodi bod newidiadau ym manylion y Gymdeithas Bori, rhaid ichi roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am y newidiadau trwy RPW Ar-lein.

Trwy glicio ar Hawliadau yn yr adran Gwallau a Gwybodaeth (fel y gwelwch isod), fe gewch eich cymryd i'r adran Hawliadau.





Fe welwch ar y sgrin y gwallau sydd wedi ymddangos:




Gan eich bod wedi nodi nad ydych am hawlio’r taliad hwn, rhaid esbonio pam. Mae hwn yn gwestiwn gorfodol.  Ar ôl ichi ysgrifennu’ch esboniad, pwyswch Safio. Ni fydd gwall yno wedyn i’ch rhwystro rhag cyflwyno’ch hawliad.

Ni fydd negeseuon gwybodaeth yn eich rhwystro rhag cyflwyno'ch hawliad. Eu diben yw rhoi gwybodaeth ichi ac i'ch atgoffa bod gofyn ichi efallai roi mwy o wybodaeth.



Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru - Tir Comin 2026

Helpu

- Cyflwyniad
- Hysbysiad preifatrwydd
- Aelodaeth Gymdeithas Bori
- Hawliadau
- Data Tir
- ATODLEN 6 - Datganiad Sicrwydd
- Cyflwyno
  - Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb
  - Datganiadau ac Ymrwymiadau
  - Cyflwyno

Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Yn ôl | Safio | Nesaf

## Gwallau a gwybodaeth

Mae'r canlynol yn rhestr o adrannau sydd â Gwallau a Negeseuon Gwybodaeth ynddyn nhw. **Rhaid** cywiro'r gwallau cyn y cewch gyflwyno'ch cais. O ran y Negeseuon Gwybodaeth, rydym yn eich cynghori i sicrhau bod eich ymateb iddyn nhw'n gywir. Am ragor o wybodaeth, darllenwch y canllaw 'Sut i Lenwi'.

Cliciwch ar enw'r Adran i weld Gwallau a Negeseuon Gwybodaeth yr adran honno.

| Enw'r Adran | Camgymeriadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| Aelodaeth Gymdeithas Bori | Dim | i |

## Crynodeb

**Pwysig** - Darllenwch y Crynodeb hwn yn ofalus.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'ch Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru - Tir Comin 2026.

Er gwybodaeth yn unig yw'r crynodeb hwn ac nid yw'n gadarnhad bod yr wybodaeth yn eich hawliad yn gywir.

Gofalwch eich bod yn fodlon bod y crynodeb isod yn adlewyrchu'ch hawliad yn gywir. Byddwch yn gweld isod pa daliadau sy'n rhan o'ch hawliad. Byddwch hefyd yn gweld nifer y parseli tir sydd yn eich Contract Cynefin Cymru - Tir Comin, a nifer y parseli tir rydych wedi'u datgan yn eich ffurflen hawlio.

Sicrhewch eich bod yn fodlon bod yr holl wybodaeth yn gywir.

Os hoffech wneud unrhyw newidiadau, ewch yn ôl i'r adran briodol nawr i wneud y newidiadau cyn cyflwyno'ch hawliad.

| Taliad | 2026 |
|---|---|
| Cynefin Cymru - Tir Comin - Taliad Rheoli Tir | Wedi'i hawlio |
| Cynefin Cymru - Tir Comin - Taliad Rheoli Ychwanegol | Heb ei hawlio |

| | Nifer yr holl barseli tir | Cyfanswm Arwynebedd (ha) | Cyfanswm Arwynebedd Cymwys (ha) |
|---|---|---|---|
| Contract | 1 | 3,335.64 | 3,318.66 |
| Wedi'i hawlio | 1 | 3,335.64 | 3,318.66 |

Printio | English | Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf


[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Crynodeb

Mae'r canlynol yn grynodeb o'ch ffurflen hawlio Cynllun Cynefin Cymru – Tir Comin 2026.
Er gwybodaeth yn unig y mae'r crynodeb hwn ac nid yw'n cadarnhau un ffordd na'r llall bod yr wybodaeth rydych wedi'i datgan yn gywir.

Gofalwch fod y crynodeb yn adlewyrchiad cywir o'ch hawliad. Fe welwch ddau dabl o dan y pennawd Crynodeb sy'n nodi pa daliadau sydd wedi'u cynnwys yn eich hawliad, a nifer y parseli yn eich hawliad.

Gofalwch eich bod yn hapus bod yr wybodaeth sy'n cael ei dangos yn gywir.
Os ydych am newid rhywbeth, gwnewch y newidiadau hynny cyn cyflwyno'ch ffurflen hawlio trwy fynd yn ôl i'r adran sydd angen ei newid.



## Crynodeb

**Pwysig** - Darllenwch y Crynodeb hwn yn ofalus.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'ch Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru - Tir Comin 2026.

Er gwybodaeth yn unig yw'r crynodeb hwn ac nid yw'n gadarnhad bod yr wybodaeth yn eich hawliad yn gywir.

Gofalwch eich bod yn fodlon bod y crynodeb isod yn adlewyrchu'ch hawliad yn gywir. Byddwch yn gweld isod pa daliadau sy'n rhan o'ch hawliad. Byddwch hefyd yn gweld nifer y parseli tir sydd yn eich Contract Cynefin Cymru - Tir Comin, a nifer y parseli tir rydych wedi'u datgan yn eich ffurflen hawlio.

Sicrhewch eich bod yn fodlon bod yr holl wybodaeth yn gywir.


Os hoffech wneud unrhyw newidiadau, ewch yn ôl i'r adran briodol nawr i wneud y newidiadau cyn cyflwyno'ch hawliad.

| Taliad | 2026 |
|---|---|
| Cynefin Cymru - Tir Comin - Taliad Rheoli Tir | Wedi'i hawlio |
| Cynefin Cymru - Tir Comin - Taliad Rheoli Ychwanegol | Wedi'i hawlio |

| | Nifer yr holl barseli tir | Cyfanswm Arwynebedd (ha) | Cyfanswm Arwynebedd Cymwys (ha) |
|---|---|---|---|
| Contract | 1 | 3,335.64 | 3,318.66 |
| Wedi'i hawlio | 1 | 3,335.64 | 3,318.66 |

Fe welwch yn nhabl eich taliad grynodeb o'r cynlluniau rydych wedi'u hawlio neu heb eu hawlio. Fe welwch yn yr enghraifft uchod fod y ddau gynllun wedi'u hawlio.

Isod, mae enghraifft lle nad yw'r Taliad Rheoli Cynllun Cynefin Cymru – Tir Comin wedi'i hawlio:



## Crynodeb

**Pwysig** - Darllenwch y Crynodeb hwn yn ofalus.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'ch Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru - Tir Comin 2026.

Er gwybodaeth yn unig yw'r crynodeb hwn ac nid yw'n gadarnhad bod yr wybodaeth yn eich hawliad yn gywir.

Gofalwch eich bod yn fodlon bod y crynodeb isod yn adlewyrchu'ch hawliad yn gywir. Byddwch yn gweld isod pa daliadau sy'n rhan o'ch hawliad. Byddwch hefyd yn gweld nifer y parseli tir sydd yn eich Contract Cynefin Cymru - Tir Comin, a nifer y parseli tir rydych wedi'u datgan yn eich ffurflen hawlio.

Sicrhewch eich bod yn fodlon bod yr holl wybodaeth yn gywir.

Os hoffech wneud unrhyw newidiadau, ewch yn ôl i'r adran briodol nawr i wneud y newidiadau cyn cyflwyno'ch hawliad.

| Taliad | 2026 |
|---|---|
| Cynefin Cymru - Tir Comin - Taliad Rheoli Tir | Wedi'i hawlio |
| Cynefin Cymru - Tir Comin - Taliad Rheoli Ychwanegol | Heb ei hawlio |

| | Nifer yr holl barseli tir | Cyfanswm Arwynebedd (ha) | Cyfanswm Arwynebedd Cymwys (ha) |
|---|---|---|---|
| Contract | 1 | 3,335.64 | 3,318.66 |
| Wedi'i hawlio | 1 | 3,335.64 | 3,318.66 |

Ar y tabl Contract ac Wedi'i Hawlio (isod), gallwch gymharu nifer y parseli sydd yn eich contract (wedi'u llenwi ar eich rhan gan Llywodraeth Cymru) â nifer y parseli rydych yn hawlio taliad arnyn nhw.  Os ydych wedi ychwanegu parseli at eich hawliad, byddwn yn eu hychwanegu at nifer y parseli 'Wedi'u Hawlio'.

E.e. Os mai dim ond 1 parsel oedd yn eich contract ond eich bod yn ychwanegu un arall at eich hawliad heb ddileu'r cyntaf, byddwch yn hawlio taliad ar 2 barsel.


Byddwch hefyd yn gallu defnyddio'r tabl hwn i gymharu'r arwynebedd (ha) a hawlir â'r arwynebedd sydd yn eich Llythyr Dyfarnu Grant Cynefin Cymru – Tir Comin.

Cyfanswm Arwynebedd = cyfanswm arwynebedd yr holl gnydau a nodweddion parhaol yn eich adran Data Tir.

Arwynebedd Cymwys = cyfanswm arwynebedd yr holl gnydau cymwys yn eich adran Data Tir rydych yn hawlio taliad arno.

Bydd unrhyw newidiadau i arwynebedd y cnydau a'r nodweddion parhaol yn cael eu dangos wrth y rhes 'Wedi'i Hawlio', o dan Cyfanswm Arwynebedd ac Arwynebedd Cymwys.

Mae gwybodaeth sydd wedi'i chymryd o'ch Contract yn seiliedig ar fersiwn ddiweddaraf eich Contract.



## Crynodeb

**Pwysig** - Darllenwch y Crynodeb hwn yn ofalus.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'ch Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru - Tir Comin 2026.

Er gwybodaeth yn unig yw'r crynodeb hwn ac nid yw'n gadarnhad bod yr wybodaeth yn eich hawliad yn gywir.

Gofalwch eich bod yn fodlon bod y crynodeb isod yn adlewyrchu'ch hawliad yn gywir. Byddwch yn gweld isod pa daliadau sy'n rhan o'ch hawliad. Byddwch hefyd yn gweld nifer y parseli tir sydd yn eich Contract Cynefin Cymru - Tir Comin, a nifer y parseli tir rydych wedi'u datgan yn eich ffurflen hawlio.

Sicrhewch eich bod yn fodlon bod yr holl wybodaeth yn gywir.

Os hoffech wneud unrhyw newidiadau, ewch yn ôl i'r adran briodol nawr i wneud y newidiadau cyn cyflwyno'ch hawliad.

| Taliad | 2026 |
|---|---|
| Cynefin Cymru - Tir Comin - Taliad Rheoli Tir | Wedi'i hawlio |
| Cynefin Cymru - Tir Comin - Taliad Rheoli Ychwanegol | Wedi'i hawlio |


| | Nifer yr holl barseli tir | Cyfanswm Arwynebedd (ha) | Cyfanswm Arwynebedd Cymwys (ha) |
|---|---|---|---|
| Contract | 1 | 3,335.64 | 3,318.66 |
| Wedi'i hawlio | 1 | 3,335.64 | 3,318.66 |

Unwaith y byddwch chi'n hapus â'r wybodaeth ar y dudalen, pwyswch 'Nesaf'.


[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae'r adran hon yn orfodol a chewch chi ddim cyflwyno'ch hawliad heb gadarnhau'ch
bod wedi darllen a deall y Datganiadau a'r Ymrwymiadau fel ag y maen nhw ar y sgrin hon.  Defnyddiwch y bar sgrolio ar ochr dde'r dudalen i ddarllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau tan ichi ddod i ddiwedd y datganiad.





Ar ôl ichi ddarllen a deall y datganiad, ticiwch y blwch isod a chlicio 'Nesaf'




[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Cyflwyno

I gyflwyno’ch hawliad, cliciwch ar y botwm ‘Cyflwyno’ glas i gyflwyno’ch ffurflen Hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin 2026.





Bydd copi o’ch hawliad yn cael ei roi ar eich tudalen Negeseuon o fewn un diwrnod gwaith.

Os oes gennych unrhyw dystiolaeth ddogfennol, gallwch ei chyflwyno naill ai trwy’ch tudalen negeseuon, trwy’r post neu drwy fynd i’ch Swyddfa Ranbarthol.

[Yn ôl i’r Cynnwys](#)


# Cadarnhau bod ffurflen hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin wedi'i chyflwyno

Fe welwch y sgrin ganlynol ar ôl ichi gyflwyno'ch ffurflen Hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin 2026.




Os hoffech brintio'r sgrin hon i brofi'ch bod wedi cyflwyno'ch hawliad, cliciwch ar y botwm 'Printio'r Sgrin hon' a welwch uchod.

Gallwch nawr bwyso 'Gadael' i fynd â chi yn ôl i dudalen Hafan RPW Ar-lein:


Llywodraeth Cymru
Welsh Government
RPW
Taliadau Gwledig Cymru
Ar-Lein
Online
Rural Payments Wales

Charlies & Estate Agent ??*/// - Yn edrych ar CRN: (Newid Cwsmer) English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 2 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach

**Cofiwch allgofnodi o'ch cyfrif ar ôl i chi orffen drwy glicio ar 'Allgofnodi' ar gornel dde uchaf y dudalen.** Os ydych yn defnyddio dyfais a rennir, gallai methu ag allgofnodi'n gywir olygu nad yw eich cyfrif a'ch gwybodaeth yn gwbl ddiogel.

**Wrth lenwi ceisiadau, gofalwch beidio a phwyso botwm yn ol eich porwr.**

## Negeseuon Rhyngoch chi ag RPW

Heb ei ddarllen **Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW**
Crynodeb o Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru - Tir Comin : Habitat Wales Commons Claim 2026 (23/02/2026 10:50:31)

Heb ei ddarllen **Derbyniwyd y Contract / Contract Accepted: (3.00)**

Heb ei ddarllen **Contract / Contract**
Contract : HabitatCommonsContract_v3.00_20251001.pdf.pdf (01/10/2025 13:56:18)

**Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW**
Gwybodaeth Ychwanegol : Additional+Information (14).pdf (14/05/2025 11:22:12)
Crynodeb o Ffurflen Hawlio Cynefin Cymru - Tir Comin : Habitat Wales Commons Claim 2025 (10/05/2025 14:37:56)

Gweld yr holl negeseuon

### Dechrau ffurflen

Apêl Ar gael unrhyw bryd

Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau - Cais Grant Ar gael hyd at 31/12/2099. 26974 diwrnod ar ôl.

DOD Cynllun Adfer Coetir Ar gael hyd at 31/12/2099. 26974 diwrnod ar ôl.


### Dolenni defnyddiol

BCMS
Ffermio a gwybodaeth cynllun
TB mewn gwartheg
Symud ac adnabod anifeiliaid fferm
Cyswllt Ffermio
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Grantiau'r môr a physgodfeydd
EID Cymru

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Hawliad sydd wedi'i Gyflwyno

Os ydych eisoes wedi cyflwyno ffurflen Hawlio Cynefin Cymru – Tir Comin 2026 a'ch bod am fynd iddi eto trwy'r dudalen hafan, fe welwch y neges a'r sgrin ganlynol:




Os oes gennych broblem â'ch hawliad, dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin a gwnaiff aelod o'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid eich helpu.

Yn ôl i'r Cynnwys